Archarwyr

Tymor y Gwanwyn 2017 - Blynyddoedd 1 a 2.

Yn ystod y tymor hwn, bydd disgyblion Blwyddyn 1 a 2 yn dilyn thema newydd a chyffrous o gynllun 'Cornerstones', sef 'Archarwyr'. Mae'r prosiect hwn yn canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau TGCh (cyfrifiadurol) y plant, ac yn ystod y tymor cynigir amrywiaeth o gyfleoedd i'r plant dynnu lluniau, peintio, cynllunio a chreu mygydau, animeiddio, chwarae rôl a recordio synau. Byddant yn ehangu eu sgiliau cofnodi trwy ddisgrifio, ysgrifennu naratif a deialog a storïau ffantasi. Bydd y plant hefyd yn dechrau defnyddio marciau siarad a swigod siarad. Fe fydd y thema hon yn sicr o danio dychymyg eich plentyn, a bydd cyfle iddynt greu archarwyr eu hunain a datblygu'r cymeriad. Mae'n bwysig hefyd i gofio bod pob plentyn yn datblygu ac yn aeddfedu yn eu hamser eu hunain.

Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu

- disgrifio / creu proffil o archarwr
- chwarae rôl
- holi ac ateb cwestiynau i ymwelwyr
- defnyddio TGCh i gofnodi a chreu lluniau
- darllen - llyfrau, cylchgronau, byrddau stori, stribedi stori
- creu stribedi stori
- ehangu geirfa
- defnyddio geiriadur
- ysgrifennu dychmygus a ffeithiol

Personol, Cymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol

- da a drwg - medru gwahaniaethu
- creu archarwyr 'moesol' i helpu i ddelio â bwlian / diogelwch y ffordd / gollwng sbwriel / cyfeillgarwch
- dysgu am fyrbrydau iachus
- pwysigrwydd yfed dŵr
- archarwyr drygionus / archarwyr da - trafod effaith ymddygiad drwg / da

Corfforol

- chwarae anturus
- symud yn ddiogel
- teithio - camu, neidio a glanio, trosglwyddo pwysau, cadw cydbwysedd, rholio, troi, dringo, swingo - ar y llawr ac wrth ddefnyddio cyfarpar
- taflu a dal pêl

Mathemateg

- datblygu sgiliau rhif - defnydd cyson o'r sgwâr 100
- adio, tynnu, rhannu, lluosi yn ôl eu gallu
- mesurau ac arian
- amser - trefniant diwrnod / y cloc
- dyddiau'r wythnos / misoedd y flwyddyn / y tymhorau

Addysg Grefyddol

- helpu eraill ee Iesu yn iachau'r cleifion
- cydweithio fel rhan o dîm ee stori Arch Noa